OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2750

# Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013

**Labelu neithdar ffrwythau**

**14.**—(1) Rhaid i berson beidio â masnachu mewn neithdar ffrwythau oni bai bod labeli'r cynnyrch yn cydymffurfio â pharagraffau (2) i (8).

(2) Rhaid i labeli neithdar ffrwythau ddangos isafswm cynnwys y sudd ffrwythau, y piwrî ffrwythau neu'r cymysgedd o sudd ffrwythau a phiwrî ffrwythau y mae'n ei gynnwys, gan ddefnyddio'r geiriau "fruit content: [x]% minimum" gan roi'r ffigur priodol yn lle "[x]".

(3) Rhaid i'r geiriad y mae paragraff (2) yn gofyn amdano gael ei leoli yn yr un maes gweledIad ag enw'r cynnyrch.

(4) Rhaid i labeli neithdar ffrwythau a gafwyd yn gyfan gwbl o un neu fwy o gynhyrchion wedi eu dwysáu ddwyn y geiriau "from concentrate" neu, yn ôl y digwydd, "from concentrates".

(5) Rhaid i labeli neithdar ffrwythau a gafwyd yn rhannol o un neu fwy o gynhyrchion wedi eu dwysáu ddwyn y geiriau "partially from concentrate" neu, yn ôl y digwydd, "partially from concentrates".

(6) Rhaid i'r geiriad y mae paragraffau (4) a (5) yn gofyn amdano ymddangos yn agos i enw'r cynnyrch mewn nodau sy'n eglur i'w gweld ac sy'n cyferbynnu'n dda â'r cefndir y mae'n ymddangos arno.

(7) Ni chaniateir gwneud honiad nad oes siwgrau wedi eu hychwanegu at neithdar ffrwythau, nac unrhyw honiad sy'n debyg o gyfleu'r un ystyr i'r defnyddiwr, oni bai nad yw'r cynnyrch yn cynnwys unrhyw fonosacaridau neu ddeusacaridau ychwanegol nac unrhyw fwyd arall a ddefnyddir oherwydd ei briodoleddau melysu, gan gynnwys melysyddion fel y'u diffinnir yn Rheoliad 1333/2008.

(8) Pan wneir honiad sy'n dweud nad oes siwgrau wedi eu hychwanegu at neithdar ffrwythau, neu unrhyw honiad sy'n debyg o gyfleu'r un ystyr i'r defnyddiwr, a bod siwgrau'n bresennol yn naturiol yn y neithdar ffrwythau, rhaid i'r geiriau "contains naturally occurring sugars" ymddangos ar y label hefyd.